**[Non SI number LIC23-13]**

At

Prif Swyddogion Cyllid
Awdurdodau Lleol

27 Mawrth 2023

**DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2003 ADRANNAU 16(2)(b) a 20: TRIN RHAI COSTAU FEL GWARIANT CYFALAF**

1. Mae'r Cyfarwyddyd hwn yn disodli'r Cyfarwyddyd blaenorol a gyhoeddwyd ar 3 Mai 2018.
2. Mae Gweinidogion Cymru'n cyfarwyddo, wrth arfer eu pwerau o dan adrannau 16(2)(b) a 20 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 ("y Ddeddf"), fod yr Awdurdodau Lleol a restrir yn Atodiad A ("yr Awdurdodau") yn trin fel gwariant cyfalaf:
    a. Gwariant a dynnir gan yr Awdurdodau y bwriedir iddo gynhyrchu arbedion refeniw parhaus wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus a/neu drawsnewid darparu gwasanaethau mewn ffordd sy'n lleihau costau neu'r galw am wasanaethau yn y blynyddoedd i ddod neu ar gyfer unrhyw rai o bartneriaid cyflenwi'r sector cyhoeddus; ac
    b. A dynnir yn briodol gan yr Awdurdodau ar gyfer y blynyddoedd ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2016, 1 Ebrill 2017, 1 Ebrill 2018, 1 Ebrill 2019, 1 Ebrill 2020, 1 Ebrill 2021, 1 Ebrill 2022, 1 Ebrill 2023, 1 Ebrill 2024.
3. Wrth arfer Pwerau Gweinidogion Cymru ymhellach o dan adran 20 o'r Ddeddf, mae'n amod yn y Cyfarwyddyd hwn na ellir talu gwariant a drinnir fel gwariant cyfalaf yn unol af ef ond o dderbyniadau cyfalaf, o fewn ystyr adran 9 o'r Ddeddf a rheoliadau a wneir o dan yr adran honno (gweler rhan 3 o SI2003/3239(W319) fel y'i diwygiwyd), sydd wedi dod i law yn y blynyddoedd y mae'r Cyfarwyddyd hwn yn gymwys iddynt.
4. Rhoddir y Cyfarwyddyd hwn at ddibenion pennod 1 o Ran 1 o'r Ddeddf yn unig. Nid yw'n cyfleu unrhyw gydsyniad arall y gallai fod ei angen neu unrhyw farn arall ynghylch priodoldeb y gwariant. Mater i bob awdurdod yw bod yn fodlon bod unrhyw swm y cymhwysir y Cyfarwyddyd hwn iddo yn cael ei dynnu yn briodol yn y flwyddyn ariannol berthnasol.
5. Wrth gymhwyso'r Cyfarwyddyd hwn, mae'n ofynnol i'r awdurdodau roi sylw i'r Canllawiau ar Ddefnydd Hyblyg o Dderbyniadau Cyfalaf a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru o dan adran 15(1)(a) o'r Ddeddf.
6. Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch yr uchod, mae croeso ichi gysylltu â Rachel Hughes – rachel.hughes@gov.wales

J M Cole

Judith Cole
Dirprwy Gyfarwyddwr yr Is-adran Polisi Cyllid Llywodraeth Leol a Chynaliadwyedd
Awdurdodwyd i lofnodi'r cyfarwyddyd hwn gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol.